LEWIS, DAVID (1848 - 1897), cyfreithiwr

Enw: David Lewis
Dyddiad geni: 1848
Dyddiad marw: 1897
Rhiant: John Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cyfreithiwr
Maes gweithgaredd: Cyfraith
Awdur: Griffith Milwyn Griffiths

Ganwyd 22 Tachwedd 1848 yn rhanbarth S. Thomas, Abertawe, yn fab hynaf i John Lewis, ustus heddwch. Addysgwyd ef yn Abertawe a Llanymddyfri, ac aeth i Goleg Caius yng Nghaergrawnt, lle y graddiodd yn B.A. yn 1872. Gwnaed ef yn fargyfreithiwr (Inner Temple) yn Nhachwedd 1873, ac ymunodd â chylchdaith De Cymru. Yn 1888 apwyntiwyd ef yn ddirprwywr cynorthwyol i holi ynghylch gwaddolau yn sir Ddinbych. Apwyntiwyd ef yn gofiadur cyntaf Abertawe yn 1891, eithr ymddiswyddodd yn 1893 ar ei apwyntiad fel un o farnwyr llysoedd sirol cylch canolbarth Cymru. Yr oedd yn aelod gweithgar o Gymdeithas y Cymmrodorion, ac etholwyd ef i gyngor y gymdeithas yn 1877. Yr oedd ganddo ddiddordeb mawr mewn cyhoeddi hen destunau a dogfennau Cymreig, ac yr oedd yn awdur amryw erthyglau hanesyddol; yn eu plith y mae ' The Welshman of English Literature,' yn *Cymm.*, 1882, a *Red Dragon*, 1886; ' The English Statutes relating to Wales, ' yn *Wales*, 1894-5; ' The Court of the President and Council of Wales and the Marches, 1478-1575,' yn *Cymm.*, 1897; ' Notes on the Charters of Neath Abbey, ' yn *Archæologia Cambrensis*, 1887; ' A Progress through Wales in the 17th century ' (h.y. Henry, dug Beaufort), yn *Cymm.*, 1883. Cyhoeddwyd nifer o'r rhain yn ddiweddarach fel pamffledi. Golygodd hefyd 4ydd argraffiad *The Law of Collieries* gan C. Fowler. Bu farw 9 Medi 1897.

Awdur

Griffith Milwyn Griffiths

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Y Cymmrodor, 1897

Foster, *Men at the Bar a biographical handlist of the members of the various inns of court, including Her Majesty's Judges* (1881)

Who's who?, 1896

J. R. Tanner, *The Historical Register of the University of Cambridge. Being a supplement to the Calendar, with a record of university offices, honours and distinctions to the year 1910* (Caergrawnt 1917)

H. Blackwell, NLW MS 9264A: A Dictionary of Welsh Biography

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732853

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu